



Lleihau'r risgiau o gyfreitha - Manteisiwch ar arbenigedd rradar am ddim

Mae gwasanaethau cynghori rradar yn cynnwys ystod o offer digidol er mwyn i chi gael cyngor ar faterion cyfreithiol a rheoliadol, gan gynnwys;

- Cyfraith adnoddau dynol a chyflogaeth
- Materion sy'n gysylltiedig â Covid-19
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch a Rheoliadau Amgylcheddo
- Diogelu data a GDPR
- Dynladdiad corfforaethol
- Contractau masnachol
- Eiddo deallusol
- Seiberdroseddu

Mae rradar yn darparu mynediad didrafferth i gyngor cyfreithiol pryd bynnag y mae ei angen.

A allwch chi fforddio colli £10,500 o'ch elw?

Yn 2020, cost hawliadau Rural Protect ar gyfartaledd oedd £10,500. Dyna faint o gost rydyn ni wedi atal unigolion a busnesau rhag mynd iddo.

Mae'r yswiriant cywir yn dileu cost ac ymyrraeth cyfreitha oddi wrth fusnes ac yn cadw elw. Mae busnesau gwledig yn wynebu'r risg o gyfreitha yn fwy nag erioed o'r blaen, mewn amrywiol amgylchiadau megis;

- Anghydfodau contract ac adfer dyled
- Tribiwnlysoedd gweithwyr
- Ymchwiliadau rheoliadol
- Apeliadau PAC a chyflafareddiadau rhent
- Twyll a ffugio
- Mynd ar drywydd trydydd parti

Mae Rural Protect bellach yn cynnwys yswiriant Treuliau Cyfreithiol Teulu - siaradwch â'ch brocer i ddarganfod mwy.

Mae'r yswiriant yn cychwyn o £405.73
(Treth Premiwm Yswiriant)

Amddiffynnwch eich hunan. Gofynnwch i'ch brocer am ddyfynbris heddiw.

Gwasanaethau Yswiriant FUW yw arddull masnachu FUW Insurance Services Limited sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan y Financial Conduct Authority. Rhif cofrestru 615251. Swyddfa Gofrestredig: Llys Amaeth, Plas Gogerddan, ABERYSTWYTH, SY23 3BT. Wedi'i gofrestru yn Lloegr a Chymru o dan rif 07981993



Amddiffyn Eich Elw

Yswiriant ar gyfer risgiau rheoliadol a chyfreithiol a chyngor proffesiynol am ddim i'w lleihau yn y lle cyntaf

Trefnwyd gan



Yswiriant wedi'i gynllunio ar gyfer busnesau gwledig

Mae Rural Protect a Rural Protect Elements yn arddull masnachu HB Underwriting Agency Ltd sydd wedi'i awdurdodi a'i rheoleiddio gan y Financial Conduct Authority (Rhif 914354). Swyddfa Gofrestredig: The Vines, 29 Market Place, Malton, North Yorkshire, YO17 7LP. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (Rhif 09278745).

Amddiffyn eich busnes. Yn eich amddiffyn chi.

Amddiffyn masnachwyr unigol, partneriaethau a chwmnïau, ar gyfer;

- Costau cyfreithiol, dyfarniadau a setliadau
- Cynrychiolaeth gyfreithiol mewn ymchwiliadau a gwrandawiadau llys swyddogol

Lle mae amddiffyniad llwyddiannus ni ofynnir i chi gyfrannu tuag at y gordal, ym mhob achos arall rydych chi'n gyfrifol am y £2,500 cyntaf o bob hawliad.

Byddwn hefyd yn eich cynorthwyo trwy fynd ar drywydd trydydd parti ar gyfer anghydfodau contract, adennill dyledion, cyflafareddiadau rhent ac apeliadau PAC.

Yn eich amddiffyn chi, cyfarwyddwyr, partneriaid, perchnogion a gweithwyr, gan gynnwys;

- Costau cyfreithiol, dyfarniadau a setliadau
- Cynrychiolaeth gyfreithiol mewn ymchwiliadau a gwrandawiadau llys swyddogol

Nid oes unrhyw beth ychwanegol i'w dalu pe bai hawliad yn cael ei wneud. Waeth beth fydd canlyniad yr hawliad, ni ofynnir i chi gyfrannu tuag at y gordal.

Amddiffynnwch eich hunan. Gofynnwch i'ch brocer am ddyfynbris heddiw.

Estyniadau Yswiriant

Yswiriant Twyll Trydydd Parti

Mae ein polisi safonol yn eich gwarchod chi am hyd at £10,000.

Os oes angen i chi amddiffyn cronfeydd neu drafodion gan eu bod yn fwy na'r swm hwn, gallwch gynyddu'r yswiriant hyd at uchafswm o £100,000.

Mae Yswiriant Twyll yn cychwyn o gyn lleied â £84

(gan gynnwys Treth Premiwm Yswiriant).

Anghydfodau Cyflogaeth

Mae'n fwy cyffredin nag erioed i fusnes fod ar yr ochr anghywir o ddeddfwriaeth cyflogaeth. Yn fwyaf cyffredin ar gyfer hawliadau:

- Terfyniad anghyfiawn
- Anffafriaeth
- Aflonyddwch rhywiol
- Diswyddiad annheg

Mae yswiriant Arferion Cyflogaeth yn cychwyn o £260.40

(gan gynnwys Treth Premiwm Yswiriant).



Ar gyfer busnesau gwledig llai

Os yw trosiant eich busnes yn llai na £50,000, gallai Rural Protect Elements fod yn addas i chi.

Mae'r cynnyrch hwn wedi'i deilwra i gael gwared ar yswiriant diangen nad oes ei angen ar fusnesau llai.

Yn eich amddiffyn chi a'ch cyfarwyddwyr, partneriaid a gweithwyr, gan gynnwys;

- Costau cyfreithiol, dyfarniadau a setliadau
- Cynrychiolaeth gyfreithiol mewn ymchwiliadau a gwrandawiadau llys swyddogol
- Mynd ar drywydd trydydd parti am anghydfodau contract, cyflafareddiadau rhent ac apeliadau PAC
- Adfer dyled*

Mae'r yswiriant yn cychwyn o £151.50 (gan gynnwys Treth Premiwm Yswiriant).

*Mae'r adferiad dyled cyntaf yn rhad ac am ddim. Wedi hynny, tanysgrifio neu opsiynau talu yn ôl defnydd.

Gofynnwch i'ch brocer am ddyfynbris heddiw.